## Y BIL AWDURDODAU CYHOEDDUS (TWYLL, GWALLAU AC ADENNILL)

## MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL (MEMORANDWM RHIF 3)

1. Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog (“RhS”) 29 sy'n rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru sy’n rhoi sylw i faterion datganoledig.

2. Cyflwynwyd y Bil Awdurdodau Cyhoeddus (Twyll, Gwallau ac Adennill) (“y Bil”) yn Nhŷ'r Cyffredin ar 22 Ionawr 2025. Gosodwyd memorandwm cydsyniad deddfwriaethol ar 7 Chwefror 2025 a gellir dod o hyd iddo yn https://senedd.cymru/media/tkjmay3q/lcm-ld16978-w.pdf

3. Gosodwyd memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol ar 6 Mawrth 2025 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol: Y Bil Awdurdodau Cyhoeddus (Twyll, Gwallau ac Adennill).

4. Ar 23 Ebrill 2025, cyflwynwyd gwelliannau pellach gan y llywodraeth yn ystod y cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin.

### Amcanion y Polisi

5. Mae amcanion polisi datganedig Llywodraeth y DU yn parhau fel y'u nodwyd yn y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol cyntaf a osodwyd ar 7 Chwefror 2025 (lcm-ld16978-w.pdf).

### Crynodeb o’r Bil

6. Noddir y Bil gan yr Adran Gwaith a Phensiynau a Swyddfa Cabinet y DU.

7. Darparwyd crynodeb o'r Bil yn y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol cyntaf, ac mae'n dal yn gywir.

8. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru a swyddogion Llywodraeth y DU wedi parhau i fod mewn cysylltiad rheolaidd mewn perthynas â'r gwaith o ddatblygu'r Bil, gan gynnwys mewn perthynas â gwelliannau gan Lywodraeth y DU sy'n effeithio ar Gymru.

### Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

9. Cymalau'r Bil fel y'u cyflwynwyd sy'n bodloni'r Prawf RhS 29 oedd 1, 2, 5, 6, 7 (ac Atodlen 1), 9, 10, 64, 65, 67 a 69 (ac Atodlen 2).

### Barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad

10. Mae Llywodraeth y DU yn nodi bod angen memorandwm cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer cymalau 1, 2, 7 (ac Atodlen 1), 9, 64, 65 a 69 (ac Atodlen 2).

**Y diweddaraf am y sefyllfa ers cyflwyno gwelliannau ar 23 Ebrill**

11. Cyflwynwyd y gwelliannau yn Nhŷ'r Cyffredin ar 23 Ebrill 2025 o dan gyfnod Adrodd y Bil. Mae'r gwelliannau canlynol yn gwneud darpariaeth berthnasol at ddibenion RhS 29:

   a) Gov 72 – Mae'r gwelliant hwn yn newid Atodlen 1 i'r Bil er mwyn galluogi Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus (PSFA) i drosglwyddo'r dystiolaeth y mae'n ei chael o dan warant Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 ('PACE') i sefydliadau eraill. Mae'r posibilrwydd o drosglwyddiad o'r fath yn newid effaith bosibl cais gan awdurdod Cymreig datganoledig i'r Gweinidog/PSFA ddefnyddio eu pwerau ymchwilio o dan gymal 1. Felly, mae'r gwelliant hwn yn gwneud darpariaeth berthnasol oherwydd ei fod yn newid cwmpas ac effaith pŵer awdurdod Cymreig datganoledig i wneud cais o'r fath.

   b) Gov 45 – Mae'r gwelliant hwn yn newid Atodlen 1 i'r Bil er mwyn galluogi'r Gweinidog (neu PSFA) i gael deunydd a ddiffinnir fel 'wedi'i eithrio' ('*excluded*') gan adran 11 o PACE (yn fras, cofnodion busnes cyfrinachol, meinwe dynol a dynnwyd at ddibenion meddygol a deunydd newyddiadurol). Felly, am yr un rheswm a roddir mewn perthynas â Gov 72, mae'r gwelliant hwn yn gwneud darpariaeth berthnasol oherwydd ei fod yn newid cwmpas ac effaith pŵer awdurdod Cymreig datganoledig i wneud cais o dan gymal 2 o'r Bil.

   c) Gov 76 a Gov 75 – Gyda'i gilydd, mae'r gwelliannau hyn yn ehangu'r diffiniad o 'twyll' ('*fraud*') yng nghymal 70 (sy'n gymwys i Ran 1 o'r Bil) i gynnwys troseddau o dan adrannau 6 a 7 o Ddeddf Twyll 2006. Maent hefyd yn gwneud darpariaeth benodol ynglŷn â dehongli'r rhannau newydd o'r diffiniad. Mae ehangu ystyr 'twyll' ('*fraud*') yn ei dro yn ehangu'r amgylchiadau lle y gallai awdurdod Cymreig datganoledig wneud cais o dan gymal 2 bod y swyddogaethau craidd o dan gymal 1 yn cael eu harfer. Felly, mae'r gwelliant hwn yn gwneud darpariaeth berthnasol oherwydd drwy ddiwygio'r diffiniad o 'twyll' ('*fraud*'), mae'n newid cwmpas un o swyddogaethau awdurdodau Cymreig datganoledig.

   d) Gov 79, Gov 78, Gov 77, Gov 74 a Gov 73 – Mae'r gwelliannau hyn yn estyn y cyfnod cyfyngu ar gyfer awdurdodau Cymreig datganoledig i ddwyn hawliad cyfreithiol mewn perthynas â thwyll sy'n gysylltiedig â covid i 12 mlynedd drwy ehangu cwmpas cymal 99. Mae'r gwelliannau hyn felly yn gwneud darpariaeth berthnasol oherwydd eu bod yn newid cwmpas swyddogaeth awdurdodau Cymreig datganoledig i ddwyn achos cyfreithiol.

**Casgliad**

12. Rwyf o’r farn ei bod yn briodol ymdrin â’r darpariaethau hyn mewn Bil gan y DU. Mae'r ddeddfwriaeth yn gyson â ffocws Llywodraeth Cymru ar ddiogelu arian cyhoeddus rhag twyll a gwallau. Felly, rwy'n argymell y dylai Senedd Cymru gefnogi'r cynigion a rhoi ei chydsyniad.

**Jane Hutt AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip**

**Mai 2025**